OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2825 (Cy.248)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*25 Hydref 2006*
Yn dod i rym	- -	*26 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 80(7) o Ddeddf Tai 2004(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dai ac anheddau(**2**) y mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

(b) ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**3**); ac

(c) ystyr "Gorchymyn 2002" ("*the 2002 Order*") yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002(**4**).

Amodau Ychwanegol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), at ddibenion adran 80(2)(b) o'r Ddeddf mae naill ai'r amod cyntaf neu'r ail amod yn gymwys—

(a) yr amod cyntaf yw, naill ai bod

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 80(7) o'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 261(1).
(**2**) Am ystyr "house" a "dwelling", *gweler* adran 99 o'r Ddeddf.
(**3**) 1989 p.42.
(**4**) *Gweler*O.S. 2002/1860.